**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**13 Ionawr 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mercher, 13 Ionawr 2021

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Chris Bithell, Derek Butler, Ian Dunbar, Veronica Gay, Gladys Healey, Patrick Heesom, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Mynychodd y Cynghorwyr Ian Roberts, Marion Bateman ac Aaron Shotton fel arsylwyr

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Arweinydd Tîm – Cynllunio; Uwch Gynllunwyr; Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygiad Priffyrdd; Uwch Gyfreithiwr; a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd.

Prif Weithredwr (ar gyfer cofnod rhif 16)

**13. Y DIWEDDAR GYNGHORYDD KEVIN HUGHES**

Yn ôl cais y Cadeirydd, talodd yr holl fynychwyr deyrnged o ddistawrwydd er cof am y Cynghorydd Kevin Hughes a oedd yn Aelod o'r Pwyllgor.

**14. DATGAN CYSYLLTIAD**

Hysbysodd y Cynghorydd Attridge bod yr ymgeisydd a'r gwrthwynebwyr ar eitem 6.3 (061919) y rhaglen wedi cysylltu ag ef ar fwy na tri achlysur.

**15. SYLWADAU HWYR**

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd cyn y cyfarfod ac a oedd wedi eu hatodi i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

https://cyfarfodyddpwyllgor.siryfflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4854&LLL=1

**16. COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2020 yn gofnod cywir, yn destun y diwygiad canlynol, a chynigiwyd ac eiliwyd gan y Cynghorwyr Dunbar a Lloyd.

Ar gais 059396, cyfeiriodd y Cynghorydd Attridge at ei sylwadau a ddangosir ar recordiad y cyfarfod lle ddywedodd ei fod wedi cysylltu â'r Cyfreithiwr Cynllunio i

ofyn a ddylid cynnal archwiliad neu atgyfeiriad at yr Heddlu, ar ôl derbyn e-bost gan asiant yr ymgeisydd. Gan nad oedd y Cynghorydd Attridge wedi darparu dim eglurhad pellach yn ystod y cyfarfod, darllenodd gynnwys yr e-bost gan y Cyfreithiwr Cynllunio yn rhoi cyngor ar y mater. Gofynnodd i Aelodau'r Pwyllgor a'r swyddogion i dderbyn ei ymddiheuriadau gan nad oedd wedi rhoi darlun llawn yn y cyfarfod.

Mewn ymateb, diolchodd y Prif Weithredwr i'r Cynghorydd Attridge am ei ddatganiad. Ar ôl cynghori'r Cynghorydd yn flaenorol y byddai eglurhad, gwrthdyniad ac ymddiheuriad yn briodol, byddai'n ymgynghori â'r swyddogion perthnasol i weld os ystyrir ymateb y Cynghorydd Attridge yn ddigonol er mwyn derbyn yr ymddiheuriad. Fel Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig, gyda dyletswydd gofal i swyddogion, roedd ef, ynghyd â'r Arweinydd wedi atgyfnerthu pwysigrwydd i Arweinwyr Grŵp i osgoi gwneud sylwadau mewn cyfarfodydd cyhoeddus a all arwain at beryglu enw da a safle swyddogion unigol, neu'r Pwyllgor Cynllunio.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y diwygiad, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## 17. EITEMAU I'W GOHIRIO

Nid oedd dim eitemau wedi'u hargymell i'w gohirio.

## 18. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y'i cyflwynwyd ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio a oedd ynghlwm fel atodiad.

## 19. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm, a gorffennodd am 2.45pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gwe-ddarlledu a gellir eu gwylio drwy fynd i'n llyfrgell o we-ddarllediadau ar: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 13 IONAWR 2021**

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 061263 | Cyngor Cymuned Bagillt | Cais llawn - Datblygu cyfleuster ailgylchu gwastraff presennol i estyn yr adeilad presennol, dymchwel tri adeilad a gosod cyfarpar prosesu deunyddiau a golchi, baeau storio, pont bwyso ychwanegol, swyddfa docynnau a system ddraenio newydd yn Stâd Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy, Bagillt. | Cafodd datganiad o wrthwynebiad gan yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Kevin Rush, ei atodi i'r adroddiad yn y rhaglen. | Cymeradwyo caniatâd cynllunio yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 060614 | Cyngor Tref Bwcle | Materion a Gadwyd yn ôl – Cais ar gyfer cymeradwyo'r materion a gadwyd yn ôl yn dilyn cymeradwyaeth amlinellol ar dir ar ochr 61 Brunswick Road, Bwcle. | Atodwyd datganiad o gefnogaeth gan yr Ymgeisydd i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Datganiad o wrthwynebiad gan y Cyngor Tref Lleol ynghlwm i'r adroddiad yn y rhaglen. | Cymeradwyo caniatâd cynllunio ar yr amod bod yr ymgeisydd yn cytuno i Rwymedigaeth Adran 106, Ymgymeriad Unochrog neu ragdaliad o £733 fesul fflat, gyda'r arian yn cael ei ddefnyddio i wella'r ddarpariaeth chwarae i fabanod yn yr Ardal Chwarae Comin Uchaf, a'r amodau o fewn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 061919 | Cyngor Tref y Fflint | Cais llawn - Codi 18 tŷ ar wahân a chreu ffordd fynediad ac ymgymryd â gwaith tirlunio ar dir ger Cartref Nyrsio Bod Hyfryd, Ffordd Llaneurgain, y Fflint. | Roedd datganiad o wrthwynebiad gan yr Aelod Lleol ynghlwm i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Atodwyd datganiad o gefnogaeth gan yr asiant i'r cais i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan breswylydd lleol i'r adroddiad yn y rhaglen. | Gwrthod caniatâd cynllunio yn unol ag argymhelliad y swyddog, yn amodol ar ddiwygio'r trydydd rheswm ar gyfer gwrthod (wedi'i nodi yn y sylwadau hwyr) fel a ganlyn:<br><br>Mae gan y cynnig y posibilrwydd i achosi aflonyddwch i'r brochfa moch daear ar ffin orllewinol y safle. Credir er mwyn i'r parth clustogi o amgylch y brochfa weithio, mae angen dull cyfannol fel rhan o ddyraniad ehangach y safle o dan HN1.4 y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Felly, ystyrir bod y cynnig fel y cyflwynwyd, yn mynd yn erbyn Polisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 10, Nodyn Cyngor Technegol 5 - Gwarchod Natur a Chynllunio a Pholisiau GEN 1 a WB1 Cynllun Datblygu Unedol Sir y Fflint. |